# 2022 Rhif (LlC22-29)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Cyfarwyddyd o dan adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 – Cyfarwyddydau Trosglwyddo Staff Awdurdodau Cymru (Pensiynau) 2022

**1.** Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Cyfarwyddyd hwn gan ddefnyddio eu pwerau o dan adran 101(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003(**1**).

**2.** Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn gymwys i awdurdodau perthnasol.

### Diffiniadau

**3.** Yn y Cyfarwyddyd hwn:

(a) "awdurdodau perthnasol" ("relevant authorities") yw'r rhai a bennir yn adran 101(7A)(aa), (ab), (ac) ac (ad) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003(**2**) a chynghorau cymuned yng Nghymru;

(b) mae cyfeiriadau at "awdurdod" ("*authority*") yn gyfeiriadau at awdurdodau a chynghorau y mae'r Cyfarwyddyd hwn yn gymwys iddynt;

(c) ystyr "rheoliadau TUPE" ("*the TUPE regulations*") yw Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006(**3**) neu unrhyw reoliadau sy'n disodli'r rheoliadau hynny, fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd;

(d) mae i unrhyw ymadrodd Cymraeg yn y Cyfarwyddyd hwn sy'n cyfateb i ymadrodd Saesneg a ddefnyddir hefyd yn rheoliadau TUPE yr un ystyr â'r ymadrodd hwnnw yn y rheoliadau hynny.

### Diogeliad pensiwn i gyflogeion awdurdod pan ddarperir gwasanaethau ar gontract

**4.** Mae paragraff 5 yn gymwys—

(a) pan fo awdurdod yn ymrwymo i gontract â pherson i ddarparu gwasanaethau; a

(b) pan fo'r gwasanaethau hynny, yn y cyfnod yn union cyn ymrwymo i'r contract, yn cael eu darparu gan yr awdurdod a'u cyflawni gan gyflogeion i'r awdurdod hwnnw.

**5.** Rhaid i'r contract ddarparu—

(a) ei bod yn ofynnol i'r contractiwr sicrhau diogeliad pensiwn i bob cyflogai sy'n trosglwyddo; a

(b) bod modd i'r cyflogai sy'n trosglwyddo orfodi'r diogeliad pensiwn a ddarperir.

(**1**) 2003 p. 26.
(**2**) 2003 p. 26. Mae hyn yn golygu: cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol; awdurdodau Parciau Cenedlaethol; awdurdodau tân ac achub yng Nghymru; a chyd-bwyllgorau corfforedig.
(**3**) O.S. 2006/246 (a ddiwygiwyd gan OSau 2009/592, 2010/93, 2011/1941, 2014/16, 2014/386, 2019/724, 2020/384 a Deddf Troseddu a'r Llysoedd 2013).

**6.** At ddibenion paragraff 5—

(a) ystyr "cyflogai sy'n trosglwyddo" ("*transferring employee*") yw cyflogai i'r awdurdod y daw ei gontract cyflogaeth, yn rhinwedd cymhwyso rheoliadau TUPE mewn perthynas â'r hyn a wneir at ddibenion cyflawni'r contract rhwng yr awdurdod a'r contractiwr, yn gontract cyflogaeth â rhywun heblaw am yr awdurdod; a

(b) sicrheir "diogeliad pensiwn" ("*pension protection*") i'r cyflogai sy'n trosglwyddo os bydd gan y cyflogai, ar ôl y newid hwnnw mewn cyflogwr, fel cyflogai i'r cyflogwr newydd, hawliau i gael buddion pensiwn a bod yr hawliau hynny—

(i) yr un peth â; neu

(ii) yn cyfrif fel rhai sy'n cymharu'n fras â, neu sy'n well na,

hawliau a oedd gan y cyflogai fel cyflogai i'r awdurdod.

**Diogeliad pensiwn i gyflogai i'r awdurdod mewn perthynas â chontract dilynol i ddarparu gwasanaethau**

**7.** Mae paragraff 8 yn gymwys—

(a) pan fo awdurdod wedi ymrwymo i gontract â pherson ("y contractiwr cyntaf") i ddarparu gwasanaethau;

(b) pan fo cymhwyso rheoliadau TUPE neu Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981(**1**) mewn perthynas â'r hyn a wnaed at ddibenion cyflawni'r contract rhwng yr awdurdod a'r contractiwr cyntaf yn golygu bod cyflogeion i'r awdurdod yn dod yn gyflogeion i rywun heblaw am yr awdurdod; ac

(c) pan fo'r awdurdod yn ymrwymo i gontract â pherson ("y contractiwr dilynol") i ddarparu unrhyw un neu ragor o'r gwasanaethau.

**8.** Rhaid i'r contract rhwng yr awdurdod a'r contractiwr dilynol ddarparu—

(a) ei bod yn ofynnol i'r contractiwr dilynol sicrhau diogeliad pensiwn i unrhyw gyflogai gwreiddiol sy'n trosglwyddo; a

(b) bod modd i'r cyflogai orfodi'r diogeliad pensiwn a ddarperir.

**9.** At ddibenion paragraff 8—

(a) ystyr "cyflogai gwreiddiol sy'n trosglwyddo" ("*transferring original employee"*) yw cyflogai i'r awdurdod—

(i) y daw ei gontract cyflogaeth, yn rhinwedd cymhwyso rheoliadau TUPE mewn perthynas â'r hyn a wneir at ddibenion cyflawni'r contract rhwng yr awdurdod a'r contractiwr dilynol, yn gontract cyflogaeth â rhywun heblaw am yr awdurdod; a

(ii) y daeth ei gontract cyflogaeth, bob tro y cyflawnwyd contract yn y cyfamser, yn rhinwedd cymhwyso rheoliadau TUPE neu Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981 mewn perthynas â'r hyn a wnaed at ddibenion cyflawni'r contract yn y cyfamser, yn gontract cyflogaeth â rhywun heblaw am y cyflogwr presennol;

(b) sicrheir "diogeliad pensiwn" ("*pension protection*") i'r cyflogai gwreiddiol sy'n trosglwyddo os bydd gan y cyflogai, ar ôl y newid mewn cyflogwr y cyfeirir ato yn is-baragraff (a)(i), fel cyflogai i'r cyflogwr newydd, hawliau i gael buddion pensiwn a bod yr hawliau hynny—

(i) yr un peth â; neu

(ii) yn cyfrif fel rhai sy'n cymharu'n fras â, neu sy'n well na,

hawliau a oedd gan y cyflogai cyn newid cyflogwr.

---

(**1**) O.S. 1981/1794.

**10.** At ddibenion paragraff 9(a)(ii) ystyr "contract yn y cyfamser" ("*intervening contract*") yw contract â'r awdurdod i ddarparu, ar adegau ar ôl eu darparu o dan y contract â'r contractiwr cyntaf a chyn eu darparu o dan gontract â'r contractiwr dilynol, y gwasanaethau i'w darparu o dan y contract â'r contractiwr dilynol.

**Dirymu**

**11.** Mae Cyfarwyddyd Trosglwyddo Staff Awdurdodau Cymru (Pensiynau) 2012 wedi ei ddirymu.

**Amseru**

**12.** Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn cael effaith ar 16 Gorffennaf 2022.

Rebecca Evans
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
Am 1.53 p.m. ar 15 Gorffennaf 2022